Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# **Gwaith ymgysylltu:** Diweddariad am y sector pob oed – hydref 2020

Rhagfyr 2020



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector pob oed – hydref 2020

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o 19 o alwadau ffôn ymgysylltu a wnaed i ysgolion pob oed rhwng 28 Medi a 9 Hydref 2020. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr, yn ogystal â chanfyddiadau o arolygon rhanddeiliaid. Mae cyfrannau'n ymwneud â'r sampl o ysgolion yr ydym wedi bod mewn cysylltiad â nhw.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lywio gan dystiolaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd gyda phenaethiaid
- Cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am feysydd penodol
- Canfyddiadau o arolygon ar gyfer disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


**Prif ganfyddiadau** ..... 1

Lles disgyblion, staff a phenaethiaid ..... 1

Hyrwyddo dysgu ..... 1

Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ..... 2

**Canfyddiadau manwl** ..... 3

Lles disgyblion, staff a phenaethiaid ..... 3

Hyrwyddo dysgu ..... 4

Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ..... 10

## Prif ganfyddiadau

### Lles disgyblion, staff a phenaethiaid

Mae ysgolion yn nodi bod disgyblion yn hapus i ddychwelyd i’r ysgol ond bod angen mwy o gymorth emosiynol a meddyliol arnynt na chyn y pandemig.

Mae arweinwyr yn nodi bod staff wedi cyd-dynnu’n wych yn ystod y pandemig. Maent yn dweud bod y sefyllfa bresennol wedi dod â staff a chymuned yr ysgol yn agosach at ei gilydd a bod mwy o ymdeimlad o weithio fel un ysgol pob oed.

Mae arweinwyr ac athrawon wedi dweud bod pwysau ychwanegol i addasu’r ddarpariaeth addysgu a chydymffurfio â rheoliadau llym yn rhoi pwysau a straen aruthrol ar y gweithlu. Mae cynorthwywyr addysgu sy’n gweithio gyda disgyblion sy’n agored i niwed o dan straen ychwanegol hefyd wrth ymdopi â threfniadau newydd fel gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn a chadw pellter cymdeithasol.

Mae penaethiaid ac uwch arweinwyr ar alwad yn gyson ac nid oeddent wedi cael seibiant am rai misoedd; mae hyn yn parhau i ychwanegu straen sylweddol ar lefel bersonol a phroffesiynol. Nododd penaethiaid y pwysau o orfod ymateb ar fyr rybudd i newidiadau mewn canllawiau a gofynion eraill, cynyddol weithiau, gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae llawer o benaethiaid yn teimlo bod cefnogaeth dda iddynt gan benaethiaid eraill trwy gyfarfodydd rhwydwaith lleol a chenedlaethol neu sgyrsiau. Mae ychydig o ysgolion pob oed yn teimlo’n ynysig a’u bod wedi’u gadael i ymdopi orau y gallant eu hunain gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

### Hyrwyddo dysgu

Ymatebodd ysgolion pob oed yn gyflym i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion pan gaeodd ysgolion. Roedd llawer o ysgolion pob oed yn gweithredu fel hybiau i ddarparu addysg i blant gweithwyr allweddol. Mae’r mwyafrif o ysgolion yn parhau i ddatblygu dysgu o bell ac yn addasu’u strategaethau addysgu i ddull mwy cyfunol ar gyfer pan fydd rhaid i ddisgyblion dreulio mwy o amser gartref. Cred y rhan fwyaf o arweinwyr ysgol bod staff wedi datblygu’u medrau technoleg gwybodaeth yn sylweddol dros y chwe mis diwethaf. Mae’n well gan ychydig o ysgolion ffrydio gwersi’n fyw pan fydd disgyblion gartref, yn hytrach na gweithgareddau anghydamserol, yn enwedig ar gyfer disgyblion y cyfnod cynradd. Mae ysgolion pob oed wedi rhoi blaenoriaeth i rannu arfer dda yn eu hysgol, ar draws cyfnodau ac adrannau.

Ers mis Medi, mae ysgolion wedi ystyried pa ddarpariaeth sydd ei hangen i ddal i fyny ar ddysgu a gollwyd, ac maent yn dechrau cynllunio sut i gau’r bwlch hwnnw.

Mae’r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi bylchau mewn medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion oedran cynradd. Ymhlith disgyblion oedran uwchradd, mae’r pryder yn ymwneud â chyflawni’r cydbwysedd cywir rhwng cyflwyno gwaith newydd a chyfnerthu dysgu ac adolygu.

Mae bron pob ysgol wedi targedu’r cyllid adfer, recriwtio a chodi safonau i wella medrau llythrennedd a rhifedd yr holl ddisgyblion a chynorthwyo disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 gyda’u gwaith cwrs ac asesiadau.

Ers mis Medi, mae bron yr holl ysgolion wedi cynnig y cwricwlwm llawn ac wedi addasu’u dulliau addysgu yn unol â chyfyngiadau trefniadol. Mae ychydig o ysgolion wedi manteisio ar y cyfle i gyflymu’u gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru. Caiff disgyblion y cyfnod cynradd eu haddysgu yn eu dosbarth fel arfer. Trefnir disgyblion oedran uwchradd mewn swigod gan gadw pellter cymdeithasol. Mae cyflwyno pynciau ymarferol yn her barhaus i ysgolion. Mae llawer o ysgolion wedi addasu’u cynlluniau ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol ac wedi lleihau gweithgareddau’n sylweddol.

Mae medrau Cymraeg disgyblion mewn ysgolion dwyieithog neu ysgolion Cymraeg wedi gwella wrth ddychwelyd ym mis Medi trwy drefniadau trochi a chymorth arbenigol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy o her o dan y cyfyngiadau presennol. Adroddodd yr ysgolion hyn fod ymgysylltiad disgyblion â’r Gymraeg yn wan yn ystod y cyfnod clo, ac ers dychwelyd, nid yw ychydig o ysgolion wedi gallu darparu arbenigwyr Cymraeg i addysgu pob swigen dosbarth.

## Cefnogi dysgwyr sy’n agored i niwed

Mae pob ysgol wedi rhoi blaenoriaeth i les disgyblion yn eu gwaith. Mae ysgolion yn adnabod eu disgyblion sy’n agored i niwed, ac fe wnaethant gadw cysylltiad rheolaidd â’u teuluoedd. Darparodd llawer o ysgolion gymorth cynhwysfawr ar gyfer disgyblion sy’n agored i niwed a’u teuluoedd, gan gynnwys cyflenwi eitemau hanfodol a chyngor ariannol. Mae presenoldeb ers mis Medi wedi bod yn well na’r arfer am fod disgyblion wedi ymhyfrydu yn y cyfle i gyfarfod â ffrindiau ac ailgydio yn eu dysgu drwy addysgu uniongyrchol.

Mae llawer o ysgolion wedi ymestyn eu darpariaeth fugeiliol i roi mwy o amser i diwtoriaid weithio gyda’u dosbarthiadau a mwy o amser i arweinwyr bugeiliol gefnogi disgyblion unigol. Mae llawer o ysgolion wedi trefnu i fwy o staff fod ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy’n agored i niwed.

Ers ailagor ym mis Medi, mae bron pob ysgol wedi gweithio’n dda gydag asiantaethau allanol i sicrhau parhad cymorth i ddisgyblion sy’n agored i niwed. Mae pob ysgol yn nodi eu bod wedi parhau i gyflawni’u dyletswyddau statudol yn ystod y cyfnod clo ac ers ailagor yn llawn. Mae ychydig o ysgolion wedi gweld cynnydd yn nifer o gyfeiriadau amddiffyn plant. Mae llawer o benaethiaid yn pryderu ynglŷn ag effaith y pandemig ar iechyd meddwl disgyblion, yn enwedig ar ddisgyblion hŷn.

Yn gyffredinol, mae’r pontio wedi bod yn hwylus i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, a sicrhaodd ysgolion fod cymorth yn cael ei ddarparu yn unol ag anghenion disgyblion trwy gydol y cyfnod clo ac ailagor.

# Canfyddiadau manwl

## Lles disgyblion, staff a phenaethiaid

### Lles disgyblion

Mae bron pob ysgol yn nodi bod disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ysgolion hefyd yn nodi bod angen mwy o gymorth emosiynol a meddyliol ar ddisgyblion wrth i'r pandemig barhau. Mae ysgolion yn arbennig o bryderus ynghylch gorbryder a achosir gan ffactorau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd mewn perthynas â chymwysterau a'r tarfu parhaus pan fydd achosion positif o'r coronafeirws yn effeithio ar gymuned yr ysgol.

Ers dychwelyd ym mis Medi, mae presenoldeb wedi bod yn uchel yn gyffredinol. Mae ychydig o ysgolion yn nodi bod presenoldeb wedi dirywio yn ystod y tymor hwn. Mae hyn yn rhannol oherwydd disgyblion yn gorfod hunanynysu.

### Lles staff

Nododd bron pob pennaeth fod y pandemig wedi cynyddu ymdeimlad o agosatrwydd ar draws yr ysgol. Mae staff wedi gweithio'n ddiflino â'i gilydd i sicrhau darpariaeth lwyddiannus ar gyfer disgyblion yn ystod y cyfnod clo ac wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Mae arweinwyr wedi nodi bod staff wedi gweithio ar draws pob cyfnod a bod hyn wedi creu ymdeimlad dyfnach o fod yn un ysgol pob oed. Sicrhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr gyswllt rheolaidd â staff a darparodd llawer ohonynt gyfleoedd i staff gymdeithasu, gyda sesiynau dal i fyny rheolaidd.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu wedi addasu'u ffyrdd o weithio'n fawr iawn yn ystod y pandemig. Mae'n rhaid i athrawon ymdopi â chanllawiau ychwanegol parhaus a phwysau cadw pellter cymdeithasol a hylendid. Yn yr un modd, mae cynorthwywyr addysgu wedi gorfod ymgyfarwyddo â gwisgo cyfarpar diogelu personol, yn enwedig wrth weithio gyda'r disgyblion mwyaf agored i niwed. Yn ôl arweinwyr, mae hyn wedi cael effaith negyddol ar les staff.

### Lles penaethiaid ac arweinwyr

Yr wyth mis diwethaf fu'r cyfnod mwyaf heriol trwy gydol eu gyrfaoedd i benaethiaid ac uwch arweinwyr. Maent wedi bod yn rheoli sefyllfa sy'n newid yn gyson a nodont y pwysau o orfod adweithio i ganllawiau ar fyr rybudd, ac yna gorfod cyfleu negeseuon i staff, disgyblion a rhieni. Yn ogystal, maent wedi gorfod delio ag ymholiadau a phryderon a godwyd gan gymuned yr ysgol.

Ers mis Medi, materion trefniadol sydd wedi mynd â'r rhan fwyaf o amser arweinwyr ysgol. Maent yn rheoli, yn goruchwylio ac yn addasu systemau newydd fel trefnu amserau cinio bob yn ail, systemau unffordd a chynnal hylendid disgyblion wrth wisgo masgiau a diheintio dwylo. Mae achosion o COVID-19 a gafwyd yn eu hysgolion yn galw ar arweinwyr i adweithio'n gyflym a rheoli sefyllfa lle nad yw staff a disgyblion yn yr ysgol am eu bod yn hunanynysu. Mae arweinwyr ar alwad yn gyson ac nid ydynt wedi cael seibiant o sylwedd ers mis Mawrth diwethaf.

Mae llawer o benaethiaid yn nodi bod awdurdodau lleol yn pryderu ynglŷn â’u lles, ond nad ydynt wedi gallu darparu cymorth ymarferol bob amser. Mae’r rhan fwyaf o benaethiaid yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth dda gan eu huwch arweinwyr a thrwy rwydweithiau penaethiaid lleol, er bod ychydig yn teimlo y gadawyd iddynt ymateb i’r pandemig ar eu pennau’u hunain.

## Hyrwyddo dysgu

### Dysgo o bell

Ymatebodd ysgolion pob oed yn gyflym i’r her o ddarparu addysg i’w disgyblion pan gaeodd ysgolion ym mis Mawrth. Bu llawer o ysgolion pob oed yn gweithio fel hybiau i ddarparu addysg i blant gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Mewn amser byr, fe wnaeth y rhan fwyaf o ysgolion ddatblygu deunyddiau dysgu y gallai disgyblion fynd atynt o’u cartref, a chred llawer o benaethiaid iddynt drosglwyddo’n hwylus i ddysgu o bell ar ddechrau’r cyfnod clo.

I lawer, roedd gallu cael adnoddau drwy Hwb yn hanfodol i gynlluniau’r ysgol. Cynhyrchodd ysgolion amserlen ddysgu ar gyfer disgyblion, a chanfuont yn gyflym fod darparu talpiau byr o waith yn hytrach na gweithgareddau wedi’u cynllunio am gyfnodau hwy yn fwy hylaw i ddisgyblion.

Mae’r mwyafrif o ysgolion yn parhau i ddatblygu dysgu o bell fel blaenoriaeth er mwyn darparu ar gyfer disgyblion sy’n gorfod hunanynysu neu nad yw’n ofynnol iddynt fynychu yn sgil cyfyngiadau Covid-19 pellach. Mewn un ysgol, ceir rhaglen o adnoddau ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 i bara hyd y Nadolig, ac yng nghyfnod allweddol 4 ceir rhaglen sy’n fwy pwrpasol ar lefel pwnc a gallu. Gall disgyblion o’r cyfnod cynradd sy’n ynysu gartref gael mynediad at adnoddau trwy app cyfathrebu gyda’r dosbarth a thrwy Hwb.

Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion fod staff wedi datblygu’u medrau technoleg gwybodaeth yn sylweddol dros y chwe mis diwethaf. Wrth i amser fynd rhagddo, roedd ysgolion yn cynnig ystod ehangach o ddarpariaeth yn gynyddol i ddisgyblion. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn dechrau monitro a gwerthuso’r ddarpariaeth hon.

Mae ysgolion wedi nodi nifer o heriau sy’n gysylltiedig â dysgu o bell, gan gynnwys mynediad disgyblion i dechnoleg, trefniadau ar gyfer ffrydio’n fyw yn ddiogel, a chymorth i rieni disgyblion mewn ysgolion Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg.

**Cameo – Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr**

Sylwodd yr ysgol, yn y cyfnod sylfaen, fod ymgysylltiad rhieni â gwaith disgyblion yn allweddol pan fydd rhaid iddynt aros gartref. Mae’r ysgol wedi cynorthwyo rhieni i wneud yn siŵr bod plant yn ymgymryd â thasgau ac yn dilyn awgrymiadau’r ysgol. Cafodd rhieni eu cyfeirio at adnoddau ar-lein a thrwy Ystafell Ddosbarth Google. Fel tystiolaeth o’r gwaith hwn, mae rhieni wedi anfon lluniau o’u plant yn gweithio i’r ysgol.

Cefnogwyd ysgolion gan lawer o awdurdodau lleol trwy ddarparu offer a’r modd i fynd at y rhyngrwyd o gartref. Mae ychydig o ysgolion yn nodi nad yw offer a

ddyrannwyd gan awdurdodau lleol wedi cyrraedd a'u bod wedi gorfod cyflenwi gliniaduron a dongls Wi-Fi i ddisgyblion o'u stoc eu hunain.

**Dysgu o Fis Medi**

Ers mis Medi, mae ysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar asesu medrau disgyblion er mwyn sefydlu pa gymorth sydd ei angen i ddal i fyny ar ddysgu a gollwyd.

Mewn cyfnodau cynradd, mae arweinwyr ac athrawon wedi sefydlu gwaelodlinau ar gyfer eu disgyblion, ac yn cynllunio yn unol â hynny. Nododd un ysgol fod athrawon yn y cyfnod sylfaen wedi cynllunio yn y lle cyntaf i lefel un flwyddyn yn is nag oedran cronolegol disgyblion ar ôl iddynt ailddechrau yn yr ysgol. Bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod darpariaeth yn parhau i fodloni anghenion y disgyblion mwyaf abl a'r rheiny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Yn fwyaf cyffredin, mae ysgolion wedi sylwi ar fwlch mewn medrau llythrennedd. Nododd ychydig fod datblygu medrau llefaredd disgyblion yn anoddach oherwydd cyfyngiadau ynglŷn â gwaith grŵp a threfniadau dosbarth.

Yn y cyfnod uwchradd, mae athrawon wedi canolbwyntio hefyd ar sefydlu cyrhaeddiad presennol disgyblion er mwyn cynllunio ymyrraeth. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio'u deunyddiau asesu eu hunain yn ogystal â chyn brofion cenedlaethol a chwestiynau arholiad.

Oherwydd y pandemig a'r canllawiau presennol, nid yw ychydig o ysgolion yn gallu cynnig y cwricwlwm llawn i'r holl ddisgyblion. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion wedi lleihau'r cwricwlwm trwy gynnig un dewis opsiwn yn llai yng nghyfnod allweddol 4 a chanolbwyntio ar atgyfnerthu datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mewn ychydig o achosion, nid yw cyrsiau partneriaeth gyda cholegau lleol wedi ailddechrau, ac mae hyn wedi achosi problemau i ysgolion o ran cyflwyno cyrsiau ymarferol, fel adeiladu a thrin gwallt a harddwch.

**Cameo – Ysgol Gymraeg Ystalyfera / Bro Dur**

Mae'r ysgol wedi dechrau rhaglen o sesiynau adolygu ar ôl ysgol ar gyfer Blwyddyn 11 a 13, yn cael ei chyflwyno ar-lein. Yn ddiweddar iawn y dechreuodd y ddarpariaeth hon, ond mae disgyblion wedi darparu adborth cadarnhaol ac mae lefelau presenoldeb yn uchel. Mae cyfraddau presenoldeb yn uwch na lefelau blaenorol ar gyfer yr un math o ddarpariaeth a gynigir fel arfer yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fawr a chred y pennaeth dros dro fod y trefniadau newydd hyn yn galluogi mwy o ddisgyblion i fynychu, gan nad oes rhaid iddyn nhw ganfod ffordd adre'n hwyrach. Yn ogystal, caiff y sesiynau hyn eu recordio fel bod disgyblion yn gallu gweld y sesiynau eto neu wylio sesiwn yn ddiweddarach os na allant fynychu.

Er bod y pandemig wedi tarfu ar gynlluniau ar gyfer gwella y rhan fwyaf o ysgolion, mae ychydig wedi dweud bod eu hymateb i'r Cwricwlwm i Gymru wedi cyflymu. Maent wedi elwa o gyfle i ystyried a cheisio ffyrdd amgen o gyflwyno'r cwricwlwm, yn ogystal â diwygio'i gynnwys. Erbyn hyn, mae ychydig o ysgolion yn mabwysiadu

arddulliau a dulliau addysgu newydd, er enghraifft datblygu gallu disgyblion i weithio'n annibynnol.

**Cynllunio ar gyfer cynnydd**

Mae bron pob ysgol wedi pennu gwaelodlin ar gyfer disgyblion ers dychwelyd ym mis Medi.  Mae hyn yn helpu staff i gynllunio gwersi a theilwra rhaglenni ymyrraeth.

Adroddodd ysgolion mai dirywiad ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod cynradd, oedd eu prif bryder.  Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae'r pryder yn ymwneud â chyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng cyflwyno dysgu newydd a dal i fyny ar agweddau a gollwyd trwy ddiffyg ymgysylltiad.

**Cameo – Ysgol Gatholig Crist y Gair**

Mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth dargedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd.  Fe wnaethant benodi cyn bennaeth cynradd i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 mewn grwpiau bach ac ar sail unigol.  Cafodd hyn effaith ar wella llythrennedd a rhifedd y grwpiau hyn yn ogystal â chynyddu hunan-barch disgyblion agored i niwed.  Mae'r ysgol yn gosod profion safonedig i'r holl ddisgyblion er mwyn pennu gwaelodlin a chymharu deilliannau gyda deilliannau arolwg ar agweddau disgyblion tuag at yr ysgol a'u hunain  er mwyn cynllunio ymyriadau targedig.

**Dysgu cyfunol**

Pan fydd disgyblion wedi bod gartref, mae ysgolion wedi darparu ystod o gyfleoedd dysgu gwahanol i ddisgyblion.  Wrth i fedrau staff a disgyblion ddatblygu, mae gweithgareddau wedi mynd yn fwy ymatebol i adlewyrchu'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn fanylach.  Mae ychydig o ysgolion wedi addasu'u strategaethau addysgu i gynorthwyo disgyblion gyda dysgu o bell gartref.  Er enghraifft, mae un ysgol wedi bod yn pryderu ynghylch diffyg rheolaeth dros beth sy'n digwydd yn y cartref.  I ymateb i hynny, maent wedi ceisio darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol a defnyddio technoleg tra'u bod yn yr ysgol.

Er bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r cymorth yn ymwneud â dysgu cyfunol, byddent yn gwerthfawrogi awgrymiadau ac enghreifftiau mwy ymarferol.

Mae'n well gan ychydig o ysgolion ffrydio gwersi'n fyw yn hytrach na gweithgareddau anghydamserol, yn enwedig ar gyfer disgyblion y cyfnod cynradd.  Bu rhoi gweithgareddau anghydamserol ar waith yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn llwyddiannus ond mae angen i ddisgyblion y cyfnod sylfaen glywed ffoneg a derbyn yr elfen 'fyw' o addysgu.

**Cameo – Ysgol Cwm Brombil**

Sefydlwyd grwpiau Microsoft Teams ar gyfer pob dosbarth addysgu yn yr un ffordd.

Mae gan bob grŵp Teams dair Sianel: Cyffredinol (rhyngweithio â'r athro a chyfoedion), Cwestiynau (cyfoedion i gyfoedion, cyfoedion i'r athro) a Gwaith (gwersi ac adnoddau).

Mae darparu sianelau ar wahân ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a Gwaith wedi cynnig cyfleoedd i gynyddu cymorth gan gyfoedion a rhyngweithio cymdeithasol – dwy elfen sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bell.

Mae tabiau ym mhob pwnc Teams wedi sicrhau bod cysylltiadau â gwefannau a ddefnyddir yn fynych yn cael eu cadw o fewn y grŵp Teams, gan sicrhau felly nad oes angen i ddisgyblion a rhieni weithredu sawl llwyfan ar gyfer dysgu. Mae hyn yn golygu bod disgyblion sydd fel arfer yn cael cymorth yn y dosbarth wedi gallu parhau i gael y lefel hon o gymorth.

Mae dysgu cyfunol yn wahanol nawr o gymharu â'r cyfnod clo pan oedd gwaith 'atgyfnerthu' yn cael ei gynnig. Erbyn hyn, mae cynllun dysgu o bell gan yr ysgol drwy Teams. Mae pob athro wedi sefydlu grŵp Teams gyda'u dosbarth.

**Ymgysylltiad disgyblion**

Cadwodd y rhan fwyaf o ysgolion gofnod o ymgysylltiad disgyblion â gweithgareddau yn ystod y cyfnod clo. Cysylltwyd â disgyblion ac fe'u cefnogwyd lle'r oedd lefelau ymgysylltu'n is na'r disgwyl. Mewn un achos, amcangyfrifodd y pennaeth fod tua 70% o ddisgyblion ar draws yr ysgol wedi ymgysylltu â'r gweithgareddau ar-lein. Cynyddodd hyn i 100% o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen, 100% yn y cyfnod cynradd, 67% yn gyffredinol yn y cyfnod uwchradd, gyda 100% ym Mlwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9. Ym Mlwyddyn 10 (disgyblion sydd bellach ym Mlwyddyn 11) y cafwyd yr ymgysylltiad lleiaf. Ymddengys bod hwn yn batrwm cyffredin o ran ymgysylltu ar draws ysgolion pob oed.

Gofynnodd llawer o ysgolion am farn disgyblion a rhieni drwy alwadau ffôn rheolaidd.

Defnyddiwyd y galwadau ffôn i annog ymgysylltu â dysgu o bell. Nododd ysgolion fod llawer o ddisgyblion yn cael anhawster cael mynediad i ddarpariaeth ar-lein. I ymateb i hynny, cynhyrchodd llawer o ysgolion becynnau wythnosol yr oeddent yn eu postio i gartrefi.

Nododd ychydig o benaethiaid fod rhai disgyblion wedi ffynnu yn ystod y cyfnod clo, ac ers dychwelyd, maent wedi ymgysylltu'n llawn â thasgau a phrosiectau. Fodd bynnag, mae disgyblion eraill wedi disgyn i batrwm dyddiol sy'n cael effaith fwy negyddol ar eu haddysg, er enghraifft trefn ddyddiol arferol o fynd i'r gwely'n hwyr a dangos arwyddion o flinder ar ôl penwythnosau.

Adroddir bod presenoldeb ers mis Medi yn well na'r arfer, ac eithrio lle mae disgyblion wedi gorfod aros gartref i ynysu.

## Sicrhau ansawdd a monitro

Mae'r pandemig presennol wedi lleihau'n sylweddol yr amser sydd ar gael i arweinwyr gynllunio'n strategol. Mae llawer o ysgolion wedi lleihau eu gweithgareddau monitro a gwerthuso yn sylweddol er mwyn ymateb i bryderon ynghylch gorlwytho staff ac oherwydd diffyg amser i ganolbwyntio ar yr agweddau hyn. Fodd bynnag, mae cynlluniau ganddynt i ailddechrau sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar ryw ffurf cyn gynted ag y bo modd.

Mae ychydig o ysgolion wedi ailddechrau gweithgareddau monitro a gwerthuso, fel teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Gwnaed hyn â chytundeb staff. Mae ysgolion eraill, oherwydd eu cyd-destun a'u sefyllfa eu hunain, yn pryderu ynghylch effaith ailddechrau monitro ar les a morâl staff.

Datblygwyd dulliau gan ychydig o ysgolion i sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu o bell a'r gwaith a osodir. Mae un ysgol wedi penodi uwch arweinydd i oruchwylio addysgu a dysgu yn y cyfnod cynradd yn benodol. Mae'n gyfrifoldeb ychwanegol at y strwythur arweinyddiaeth blaenorol ac yn ymateb uniongyrchol i angen sy'n codi o'r pandemig.

## Trefniadau gweithredol, gan gynnwys iechyd a diogelwch

Mae bron pob ysgol wedi gosod disgyblion y cyfnod cynradd yn eu dosbarthiadau arferol gydag un athro a chynorthwywyr addysgu, lle bo'n berthnasol. Yn gyffredinol, mae disgyblion cyfnod allweddol 3 mewn swigen ddosbarth, band neu flwyddyn. Maent yn aros yn yr un ystafell ddosbarth ac ardal o'r ysgol, ac mae athrawon yn symud rhwng gwersi. Yn y rhan fwyaf o ysgolion pob oed, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth wedi'u gosod mewn swigod hefyd, ond maent yn symud o amgylch yr ysgol i fynd i ystafelloedd dosbarth arbenigol.

Mae arweinwyr yn pryderu nad yw pynciau ymarferol yn gallu gweithredu'n llawn, ac maent wedi gofyn am fwy o arweiniad er mwyn ailddechrau gwaith cyn gynted ag y bo modd ac mor ddiogel â phosibl.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cadw eu strwythur amserlen arferol ond maent wedi ad-drefnu'r diwrnod ysgol. Mae amserau egwyl ac amserau cinio am yn ail yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cadw pellter cymdeithasol rhwng eu swigod. Fodd bynnag, oherwydd yr ad-drefnu hwn, bu'n ofynnol i staff fod ar ddyletswydd am gyfnodau hir o hyd at dair awr. Mae hyn yn rhoi baich ychwanegol ar uwch arweinwyr yn benodol, ac yn lleihau'r amser sydd ar gael ganddynt i roi blaenoriaeth i'r agweddau mwy strategol.

Ers ailagor, mae disgyblion ar draws llawer o ysgolion wedi gorfod ynysu yn dilyn achos positif o COVID-19 yn eu swigen. Mae arweinwyr wedi ymateb yn dda gan ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae ychydig o ysgolion wedi cael problemau gydag offer TGCh a hygyrchedd. Yn gyffredinol, fe wnaeth awdurdodau lleol gefnogi ysgolion yn dda o ran sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at ddyfeisiau a mynediad i Wi-Fi. Mae ychydig o ysgolion wedi prynu offer i'w rhoi i ddisgyblion gan nad yw'r rheiny a archebwyd gan yr awdurdod lleol ar gael tan fis Ionawr.

Nododd arweinwyr ysgol fod awdurdodau lleol wedi'u cefnogi'n dda gyda materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mae enghreifftiau o'r cymorth yn cynnwys asesiadau risg generig, ymweliadau â safleoedd, a chyngor dilynol, fel y bo'n briodol.

**Dysgu carlam (Grant recriwtio, adfer a chodi safonau)**

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi derbyn gwybodaeth am raglen Llywodraeth Cymru 'Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau: y rhaglen dysgu carlam', gan eu hawdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r cymorth a gynigiwyd i ysgolion i'w helpu i gynllunio sut i ddefnyddio a monitro'r cyllid grant wedi amrywio ledled Cymru.

Mae ysgolion pob oed wedi cynllunio i ddefnyddio'r grant mewn ffyrdd amrywiol. Targedwyd y cyllid gan bron pob un ohonynt i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 gyda'u gwaith cwrs ac asesiadau.

Mae llawer o ysgolion wedi recriwtio cynorthwywyr addysgu lefel uwch i weithio gyda grwpiau bach o ddisgyblion neu ddisgyblion unigol. Mewn ychydig o achosion, penodwyd athrawon i helpu cynllunio a chyflwyno rhaglenni dal i fyny; er enghraifft, mae un ysgol wedi dyrannu athro ar gyfer y cyfnod cynradd ac athro arall i'r cyfnod uwchradd. Mae penaethiaid yn awyddus i'r cyllid hwn a gweithgareddau newydd i effeithio'n dda ar les a hunan-barch disgyblion yn ogystal ag ar eu cynnydd mewn dysgu. Nodir anawsterau wrth recriwtio staff gan ychydig o ysgolion, gydag un ysgol wedi methu penodi cynorthwyydd addysgu er y gwnaed tair ymgais.

Bu ychydig o ysgolion yn fwy creadigol o ran eu hymagwedd ac wrth ddefnyddio'r grant. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cwmni hyfforddiant preifat, cynyddu oriau contract staff rhan-amser a phenodi gweithwyr ieuenctid.

**Cameo – Ysgol Nantgwyn**

Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio i gynnal ysgol rithwir ar fore Sadwrn ar gyfer Blwyddyn 11. Hefyd, bydd Blwyddyn 11 yn cael amser addysgu ychwanegol mewn amser tiwtor a dwy noswaith o addysgu ychwanegol yr wythnos. Yn ystod yr amser hwn, byddant yn cael cymorth ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Bydd y ddarpariaeth yn cael ei staffio gan staff newydd yn ogystal â staff presennol. Mae'r ysgol yn rhagweld y bydd yn haws recriwtio ar gyfer addysgu rhithwyr yn yr ardal leol nag ar gyfer addysgu'n bersonol.

Ar gyfer yr holl oedrannau eraill, bydd ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Dysgu rhithwir fydd hwn eto, gyda thri neu bedwar disgybl mewn grŵp am gyfnod amser byr ar fore Sadwrn. Mae manteision i hyn, gan y bydd rhieni yn dysgu ochr yn ochr â'r disgyblion.

**Dysgu proffesiynol**

Bu'n rhaid i bron pob ysgol adweithio'n gyflym i'r pandemig ac addasu'u cynnig dysgu proffesiynol i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau digidol athrawon. Aeth staff

ag arbenigedd yn y maes hwn ati i ddatblygu gweithdai a fideos enghreifftiol i'w rhannu gyda'u cydweithwyr. Cred penaethiaid fod cymhwysedd digidol staff wedi cynyddu'n sylweddol ers i ysgolion gau, ac maent yn gweld mantais hyn pan ddychwelodd disgyblion yn amser llawn ym Medi. Mae llawer o ysgolion wedi parhau â phrosiectau ymchwil ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar-lein y gall staff fynd atynt gartref. Mae arweinwyr wedi dweud eu bod yn ystyriol o beidio â gorlwytho staff â mentrau a hyfforddiant newydd. Credant fod y cyfnod presennol wedi ysgogi parodrwydd ymhlith athrawon i arbrofi a rhoi cynnig ar strategaethau addysgu newydd.

Mae ysgolion pob oed wedi elwa o rannu arfer dda ar draws y cyfnodau yn eu hysgolion. Mae cyfleoedd wedi codi i rannu arfer dda o fewn eu clwstwr o ysgolion ac ar draws y rhwydwaith pob oed cenedlaethol.

Mae cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi amrywio ledled Cymru. Teimlai ychydig o ysgolion bod cymorth da ar gael iddynt gyda chyngor perthnasol ac amserol, yn enwedig o ran dysgu cyfunol.

### Cymraeg

Adroddodd ysgolion Cymraeg a dwyieithog fod gallu disgyblion i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dirywio, yn enwedig y rhai o gartrefi di-Gymraeg. Ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol, mae'r disgyblion hyn wedi dal i fyny'n gyflym drwy eu trochi yn yr iaith a/neu gymorth arbenigol, lle bo angen. Bu ffrydio gwersi'n fyw i ddisgyblion yn eu cartref yn ffactor pwysig o ran cyfyngu ar ddirywiad medrau iaith Gymraeg disgyblion.

Mae darpariaeth ar gyfer Cymraeg yn fwy o her i ysgolion cyfrwng Saesneg. Er bod disgyblion yn parhau i gael gwersi Cymraeg, nid yw bob amser yn bosibl i staff arbenigol weithio drwy'r holl gyfnodau allweddol oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan COVID-19 a 'gosod staff mewn swigod'. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gallu dilyn darpariaeth Gymraeg cwrs llawn yng nghyfnod allweddol 4.

### Cymwysterau a threfniadau asesu

Mynegodd llawer o benaethiaid bryder am eu disgyblion presennol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13. Yn benodol, pryder ynghylch sut gellir cyflwyno pynciau ymarferol fel cerdd, drama a thechnoleg yn ddiogel.

## Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed

### Hyrwyddo lles

Dywedodd yr holl ysgolion y cysylltwyd â nhw eu bod wedi rhoi lles disgyblion wrth wraidd eu gwaith. Adroddodd pob ysgol eu bod wedi cadw cysylltiad â rhieni a disgyblion trwy ddulliau amrywiol yn ystod y cyfnod clo. Parhaodd bron pob ysgol â'r arfer hon ar ôl i ysgolion ailagor. Roedd gweithdrefnau cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion i nodi disgyblion agored i niwed a'u teuluoedd. Nododd yr ysgolion ddisgyblion a oedd wedi mynd yn agored i niwed oherwydd y pandemig drwy alwadau ffôn rheolaidd a gwaith gydag asiantaethau allanol fel yr heddlu a'r

gwasanaethau cymdeithasol. Mae ychydig o ysgolion yn nodi cynnydd sylweddol yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a bregusrwydd yn cael ei achosi gan ddiweithdra cynyddol. I ymateb i hynny, mae ysgolion wedi cynyddu cyswllt â rhieni ac mae arweinwyr yn nodi bod perthnasoedd gweithio gyda rhieni wedi gwella'n sylweddol.

Aeth timau lles mewn ysgolion ar drywydd lles disgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi ymestyn sesiynau bugeiliol i ganiatáu amser i diwtoriaid weithio ar les gyda dosbarthiadau cyfan ac unigolion. Mae ychydig o ysgolion wedi amserlennu mwy o amser i arweinwyr bugeiliol weithio gyda disgyblion sy'n agored i niwed.

**Presenoldeb**

Adroddodd bron pob ysgol gyfraddau presenoldeb uchel pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol ym mis Medi. Roedd presenoldeb disgyblion agored i niwed yn arbennig o uchel. Mae ysgolion yn adrodd bod disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol a'u bod wedi addasu'n dda i drefniadau a gweithdrefnau newydd. Nododd ychydig iawn o ysgolion fod presenoldeb yn is na'r arfer ond eu bod yn ymwybodol o'r rhesymau am absenoldebau. Mae ychydig iawn o rieni wedi dewis addysgu eu plant gartref yn sgil gorbryder ynghylch y pandemig.

Mae awdurdodau lleol wedi cynorthwyo ysgolion yn dda gyda phresenoldeb disgyblion. Er enghraifft, darparodd un awdurdod drafnidiaeth ychwanegol ac aildrefnodd bysiau ysgol er mwyn dod â'r disgyblion mwyaf agored i niwed i'r ysgol ym mis Medi.

**Grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed**

Ar ôl nodi grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, darparodd ysgolion gymorth penodol drwy weithio gyda'r teuluoedd a gwasanaethau arbenigol. Darparodd llawer o ysgolion gymorth cynhwysfawr i deuluoedd, gan gynnwys cyngor ar faterion ariannol, cyflenwi dillad a deunyddiau ysgrifennu, atgyfeiriadau at fanciau bwyd a chyngor ymarferol ar gael cymorth lles.

**Cameo – Ysgol Gymunedol Tonyrefail**

Cynorthwyodd yr ysgol lawer o deuluoedd a oedd yn dioddef caledi oherwydd ffyrlo neu golli cyflogaeth. Nid oedd teuluoedd newydd yn gallu cael mynediad i daliadau prydau ysgol am ddim am chwe wythnos. Cyfrannwyd bwyd gan fusnesau lleol (er enghraifft, fe wnaeth tafarndai a chlybiau rygbi gyfrannu bwyd a fyddai wedi mynd heibio'r dyddiad bwyta erbyn iddynt ailagor, a chyfrannwyd bwyd gan siopau lleol). Ymunodd yr ysgol ag eglwysi lleol a'r banc bwyd a pharatoi pecynnau bwyd yn yr ysgol. Yna, helpodd y gwasanaeth prawf i ddosbarthu'r bwyd, gyda hyd at 1,700 o becynnau'n cael eu dosbarthu bob wythnos. Roedd cyfranogiad ac adborth gan y gymuned yn gadarnhaol iawn. Fe wnaeth hyn gryfhau perthnasoedd a chreu ymdeimlad o ymddiriedaeth rhwng yr ysgol a'i phartneriaid.

Mae llawer o benaethiaid yn pryderu ynghylch effaith y pandemig ar iechyd meddwl disgyblion. Codwyd pryder gan un ysgol ynglŷn ag iechyd meddwl disgyblion y chweched dosbarth yn benodol a oedd yn pryderu ynghylch arholiadau a chwblhau cyrsiau.

Fe wnaeth bron pob ysgol nodi grwpiau o ddisgyblion nad oeddent yn gallu ymgysylltu â gwaith ar-lein. Roedd hyn yn rhannol yn sgil teuluoedd yn methu fforddio offer neu fynediad i'r rhyngrwyd. Nododd ychydig o ysgolion fod disgyblion yn mynd at waith ar eu ffonau symudol ac nad oeddent yn elwa o'r ystod lawn o dasgau a oedd ar gael iddyn nhw. Mewn ychydig o achosion, nid oedd disgyblion a'u rhieni yn deall sut i fynd at waith ar-lein. Darparodd llawer o ysgolion offer a chyngor ar ddefnyddio dyfeisiau digidol.

**Gwasanaethau arbenigol a gweithio amlasiantaeth**

Ers i ysgolion ailagor yn llawn ym mis Medri, mae bron pob un wedi gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i barhau â darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Mae ysgolion ac asiantaethau wedi mabwysiadu dull cydgysylltiedig i nodi disgyblion sy'n agored i niwed a darparu cymorth amserol.

Nododd ysgolion bod asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), yr heddlu a therapyddion lleferydd ac iaith wedi cadw mewn cysylltiad ag ysgolion trwy gydol cyfnod y pandemig. Ers mis Medi, mae llawer o wasanaethau wedi ailddechrau cyswllt wyneb yn wyneb â disgyblion. Mae ysgolion wedi cytuno ar asesiadau risg ar gyfer yr holl ymwelwyr ac mae ystafell ddynodedig gan lawer ar gyfer gwaith o'r fath lle mae'n hawdd cadw pellter cymdeithasol a chadw'n lân.

Mae adborth gan arweinwyr yn nodi bod seicolegwyr addysg ac adrannau AAA mewn awdurdodau lleol wedi darparu canllawiau defnyddiol. Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi gweld cynnydd yn y galw am gymorth emosiynol ar gyfer iechyd meddwl. Mae seicolegwyr addysg wedi rhannu canllawiau defnyddiol gydag ysgolion, fel ar gyfer delio â phrofedigaeth. Fodd bynnag, mae ychydig o ysgolion yn nodi, oherwydd pwysau eraill, nad yw gwasanaethau iechyd wedi gallu ymateb i geisiadau am help gydag iechyd emosiynol disgyblion pan gododd achosion.

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynyddu'r gwasanaeth cwnsela sydd ar gael i ysgolion. Mae gwasanaethau lles addysg yn cael eu canmol am eu hymdrech barhaus i ymgysylltu â theuluoedd a chynnal ymweliadau â chartrefi disgyblion sy'n agored i niwed neu ddisgyblion anfoddog. At ei gilydd, mae ysgolion yn hyderus bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael gofal a bod rhieni'n ddiolchgar iawn am eu gofal a'u pryder.

**Proses statudol ac atgyfeiriadau**

Mae'r holl ysgolion yn nodi eu bod wedi parhau i gyflawni'u dyletswyddau statudol yn ystod y cyfnod clo ac ers dychwelyd ym mis Medi.

Ni dderbyniodd y rhan fwyaf o ysgolion unrhyw atgyfeiriadau newydd ar gyfer datganiad o AAA yn ystod y cyfnod clo ond maent yn disgwyl cynnydd yn y galw am asesiadau yn dilyn llawer o ymholiadau mewn perthynas â hyn gan rieni. Mae

ychydig o ysgolion wedi gweld nifer gynyddol o atgyfeiriadau amddiffyn plant, yn enwedig mewn perthynas â materion domestig.

Mae adolygiadau blynyddol asesiadau statudol ysgolion o ddisgyblion â datganiad wedi parhau trwy gyfarfodydd rheolaidd ar-lein.  Gyda chymorth awdurdodau lleol, mae ysgolion wedi llwyddo i gynnal y rhan fwyaf o adolygiadau blynyddol fel y cynlluniwyd.  Fe wnaeth adolygiadau o gymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal barhau'n rhithwir hefyd.

Fe wnaeth y pontio ar gyfer disgyblion ag AAA fynd yn hwylus.  Sicrhaodd ysgolion fod yr holl ddisgyblion â datganiad wedi derbyn y cymorth a amlinellwyd yn eu cynlluniau unigol, lle bynnag y bo modd.

**Dysgu proffesiynol i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed**

Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff allweddol sy'n cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed.  Mae llawer o ysgolion yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol â ffocws ar les gan yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol.  Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar-lein ar ofynion y broses diwygio ADY ar gyfer ysgolion, a diweddaru hyfforddiant diogelu.  Fe wnaeth llawer o athrawon elwa ar amser i rwydweithio â chydweithwyr a rhannu arfer dda ar ddysgu ar-lein a bodloni anghenion disgyblion.  Aeth llawer o ysgolion ati i edrych eto ar hyfforddiant ar destunau fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chau'r bwlch.